

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Bil yr Amgylchedd

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020. Ar 26 Chwefror 2021, gwnaed y Bil yn amodol ar gynnig i drosglwyddo'r Bil i sesiwn nesaf Senedd y DU a ddechreuodd ar 11 Mai 2021. Cafodd y Bil ei ailgyflwyno gerbron Senedd y DU ar 26 Mai 2021, pan ddaeth Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad i ben.
3. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi i'w weld yn <https://bills.parliament.uk/publications/42243/documents/555>. Mae'r cyfeiriadau at gymalau yn y memorandwm hwn yn adlewyrchu rhifau'r cymalau yn y fersiwn hon o'r Bil oni nodir yn wahanol.

Amcanion Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil hwn yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a gwneud darpariaeth ar gyfer gwella'r amgylchedd mewn ffyrdd penodol, gan gynnwys mesurau ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, ansawdd aer ac adalw amgylcheddol, dŵr, natur a bioamrywiaeth, a chyfamodau cadwraeth.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).
6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch targedau, cynlluniau a pholisïau ar gyfer gwella'r amgylchedd naturiol; ar gyfer datganiadau ac adroddiadau am ddiogelu'r amgylchedd; ar gyfer Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; ynghylch gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau; am ansawdd aer; ar gyfer adalw cynhyrchion nad ydynt yn bodloni safonau amgylcheddol; am ddŵr; am natur a bioamrywiaeth; ar gyfer cyfamodau cadwraeth; ynghylch rheoleiddio cemegau; ac at ddibenion cysylltiedig.
7. Mae'r cymalau sy'n arbennig o berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel a ganlyn:
 - Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol - Cymal 20 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a Cymal 46 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n ymwneud â chymal 20.

- Rhan 3 – Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau – cymalau 50 a 51 (Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) ac Atodlenni; cymalau 52 – 55 (Effeithlonrwydd o ran adnoddau), cymal 58 (Olrhain gwastraff yn electronig: Prydain Fawr), cymal 60 (Gwastraff peryglus Cymru a Lloegr), cymal 63 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990), cymal 64 (Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl), cymal 66 (Pwerau gorfodi), cymal 68 (Gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel), cymal 69 (Hysbysiadau Cosb Benodedig), cymal 70 (Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd),
- Rhan 4 – Ansawdd aer ac adalw amgylcheddol – cymal 72 (Fframwaith rheoli ansawdd aer yn lleol), cymal 73 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993),
- Rhan 5 – Dŵr – cymalau 78 a 79 (cynlluniau a chynigion), cymal 81 (Pŵer awdurdod i wneud gwybodaeth yn ofynnol), cymal 83 (Cyflwyno dogfennau'n electronig), cymal 85 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol), cymal 86 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru), cymal 89 (Ansawdd dŵr: dehongli), cymalau 91 – 93 (Draenio tir),
- Rhan 6 – Natur a Bioamrywiaeth – cymal 112 (Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol),
- Rhan 8 – Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol – Cymal 136 (Diwygio'r deddfwriaeth ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH))

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf.

8. Ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ("Memorandwm 1") ar y Bil a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Mehefin 2021, mae Llywodraeth y DU wedi cynnig gwelliannau at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn ymwneud â chymalau 64, 68 a 92 ac i atodlenni 5 a 10.

Gwelliant Arfaethedig i Gymal 64 (Cymal 63 ym Memorandwm 1) – Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl

9. Mae cymal 64 yn diwygio adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 drwy fewnosod pwerau i ganiatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban wneud cynlluniau codi tâl fel modd o adennill costau y mae'n eu hysgwyddo drwy gyflawni swyddogaethau.
10. Mae'r Bil fel y'i drafftwyd yn diwygio pwerau presennol Asiantaethau'r Amgylchedd (gan gynnwys rhai'r CNC) i wneud cynlluniau codi tâl er mwyn cynnwys taliadau am swyddogaethau a gyflawnir mewn perthynas ag Atodlen 4 (Ymrwymadau o ran Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd). Fodd bynnag, rhaid gosod taliadau mewn perthynas ag Atodlen 5 (Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd am Gostau Gwaredu) mewn rheoliadau. Mae hyn yn golygu y bydd gan yr Asiantaethau'r pŵer i wneud cynlluniau codi tâl mewn perthynas â swyddogaethau Atodlen 4

ond rhaid nodi taliadau mewn perthynas â swyddogaethau Atodlen 5 mewn rheoliadau.

11. Pan fo cynllun cyfrifoldeb cynhyrhydd yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio pwerau Atodlen 4 a 5, fel sy'n wir am ddeunydd pacio, bydd angen i'r Asiantaethau allu gwneud un cynllun codi tâl. Y diwygiad arfaethedig, felly, yw diwygio cymal 64 i gynnwys darpariaeth i'r Asiantaethau wneud cynlluniau codi tâl mewn perthynas â swyddogaethau Atodlen 5 (yn ogystal â swyddogaethau Atodlen 4) heb fod angen rheoliadau.
12. Bydd hyn yn golygu y gall yr Asiantaethau sicrhau bod eu taliadau'n adlewyrchu eu gwir gostau, eu galluogi i sicrhau arbedion o ran effeithlonrwydd a rhoi hyblygrwydd iddynt addasu taliadau dros amser heb fod angen rhagor o is-ddeddfwriaeth arnynt. I gynhyrchwyr mae'n golygu un tâl, yn hytrach na dau dâl ar wahân o dan un gyfundrefn. Mae hefyd yn golygu, pan fabwysiedir dull gweithredu ledled y DU o ran cyfrifoldeb y cynhyrhydd, y gall y rheolyddion fabwysiadu dull cyson.
13. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliant fel newid synhwyrol sy'n cynorthwyo sut y bydd y cynlluniau codi tâl yn gweithio.
14. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff a diogelu'r amgylchedd, un o ddibenion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion RhS 29.1.

**Gwelliant Arfaethedig i Gymal 68 (Cymal 67 ym Memorandwm 1)
– Gorfodi mewn perthynas â Gollwng Sbwriel**

15. Mae cymal 68 yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â gorfodi yn erbyn gollwng sbwriel a dosbarthu deunydd printiedig am ddim heb awdurdod.
16. Mae cymal 68 yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru (fel 'person priodol' yng Nghymru) ragnodi amodau drwy reoliadau y mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran awdurdod sbwriel eu bodloni, ac i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sbwriel ddirymu awdurdodiad swyddog os yw'r swyddog yn methu â bodloni'r amodau rhagnodedig. Mae'r pwerau newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
17. Mae cymal 68 hefyd yn rhoi pwerau gwneud canllawiau i Weinidogion Cymru. Ni fyddai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y pwerau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.
18. Mae'r diwygiad arfaethedig yn gosod dyletswydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi a gosod y canllawiau gerbron y Senedd.

19. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliant gan y bydd yn rhoi mwy o gyfle i'r Senedd graffu ar gynlluniau ar gyfer gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel yng Nghymru.
20. Bydd y gwelliant hwn hefyd yn rhoi cydraddoldeb i ganllawiau statudol presennol Llywodraeth Cymru, sef y Cod Ymarfer ar gyfer Sbwriel a Gwastraff (COPLAR), y mae'n ofynnol ei osod gerbron y Senedd os gwneir newidiadau sylweddol. Cynigir y bydd y COPLAR presennol yn cael ei adolygu fel rhan o'n rhaglen Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ac felly, bydd y canllawiau gorfodi newydd yn rhan o'r pecyn gwaith hwn.
21. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad arno. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion RhS 29.1.

Gwelliant Arfaethedig i Gymal 92 (91 ym Memorandwm 1) – Priso tir amaethyddol mewn ardal ddraenio: Cymru a Lloegr

22. Mae cymal 92 fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn darparu i Weinidogion Cymru, fel yr Awdurdod Cenedlaethol priodol yn achos unrhyw ardal ddraenio fewnol yng Nghymru, bŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pennu gwerth blynyddol pob eiddo trethadwy mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru gan fwrdd draenio'r ardal. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd mae pŵer eang i ganiatáu i reoliadau ddiwygio'r Ddeddf Draenio Tir *yn ogystal â deddfiadau eraill*.
23. Mae'r diwygiadau i Ddeddf Draenio Tir 1991 yn bwysig i'r Bwrdd Draenio Mewnol, Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, gasglu referniw.
24. Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu y bydd pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan 41A yn cael ei gyfyngu i wneud diwygiadau, diddymadau neu ddirymadau yn unig i Ddeddf Draenio Tir 1991 *ac nid i unrhyw ddeddfiad arall*. Bydd rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn gofyn am gymeradwyaeth y Senedd yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol.
25. Mae'r gwelliant hwn yn lleihau'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru. Mae'r gwelliant hwn yn darparu'r un effaith mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr.
26. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reoliadau y gallai fod angen iddynt ddiwygio Deddfau ar wahân i Ddeddf Draenio Tir 1991 (LDA), mewn perthynas â phwnc cymal 92. Felly, ystyrir bod culhau cwmpas cymal 92 yn rhesymol.
27. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer draenio tir, sy'n ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn

bod angen cydsyniad arno. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion RhS 29.1.

Gwelliant Arfaethedig i Baragraff 4(1) Atodlen 5 – Cyfrifoldeb y cynhyrchydd am gostau gwaredu.

28. Mae Atodlen 5 yn ymwneud â chyfrifoldeb y cynhyrchydd am gostau gwaredu. Mae paragraff 4(1) yn darparu ar gyfer penodi gweinyddwr cynllun sy'n ymwneud â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. Rôl gweinyddwr yw rheoli darpariaeth a wneir mewn perthynas â chostau gwaredu yn y rheoliadau. Mae'r darpariaethau fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddwr cynllun gael ei benodi drwy reoliadau.
29. Bydd y gwelliant arfaethedig yn caniatáu i wahanol brosesau penodi fod yn addas ar gyfer gwahanol gynlluniau cynnyrch.
30. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r gwelliant arfaethedig yn caniatáu hyblygrwydd o ran proses ac yn galluogi naill ai'r gweinyddwr i gael ei benodi drwy reoliadau (fel sy'n digwydd fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd) neu wneud darpariaeth ar gyfer penodi'n weinyddol. Mae hyn yn ehangach na'r gwaith gwreiddiol o ddrafftio'r ddarpariaeth.
31. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion RhS 29.1.

Gwelliant Arfaethedig i Atodlen 10 – Pwerau Gorfodi

32. Mae Atodlen 10 yn ymwneud â phwerau gorfodi. Mae'r Bil yn mewnosod pwerau newydd yn adran 108(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gan gynnwys y pŵer i chwilio mangreoedd, ac atafaelu a dileu tystiolaeth ddogfennol ((4)(ka) newydd). Gan mai pwerau chwilio ac atafaelu yw'r rhain, cynhwyswyd gofyniad na chaiff person awdurdodedig o Gymru neu Loegr arfer y pwerau yn is-adran 4(ka) heb awdurdod gwarant.
33. Yn ymarferol, mae'r pwerau yn adran 108 ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth yn ogystal ag ar gyfer ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Felly, mae'n hanfodol bod swyddogion awdurdodedig yn gallu cyflawni eu dyletswydd heb orfod cael gwarant pan fo'r perchennog/meddiannydd wedi rhoi caniatâd i fynd i mewn i fangre. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ei gwneud yn glir, unwaith y bydd modd cael mynediad, fod cydsyniad person sydd â hawl i roi mynediad i ddeunydd yn y fangre, neu ddeunydd y gellir cael mynediad iddo o'r fangre, yn ddigonol i ganiatáu i'r swyddogaethau chwilio ac ymrafael a restrir mewn manau eraill yn y ddarpariaeth gael eu harfer.

34. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen y gwelliant gan fod y drafft gwreiddiol ond yn awgrymu y byddai'r pwerau'n arferadwy gyda chydsyniad yn hytrach na darparu ar ei gyfer yn benodol. Mae'r gwelliant yn rhoi eglurder y gellir arfer y swyddogaethau chwilio ac ymafael naill ai gyda chydsyniad neu gyda gwarant.
35. Gan fod y cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Byddai'r cymal yn *ddarpariaeth berthnasol* at ddibenion RhS 29.1.

Goblygiadau ariannol

36. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd o ganlyniad i gyflwyno'r gwelliannau hyn i'r bil.

Casgliad

37. Rwy'n fodlon cymeradwyo'r gwelliannau arfaethedig i Fil Amgylchedd y DU.
38. Amlinellodd Memorandwm 1 farn Llywodraeth Cymru bod y Bil yn gyfrwng priodol i ddatblygu mentrau sy'n gofyn am ddull cydgysylltiedig. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau i'r darpariaethau a amlygwyd uchod yn briodol ac nid ydynt yn newid barn Llywodraeth Cymru bod y darpariaethau'n parhau i fod yn ddarpariaeth berthnasol at ddibenion RhS 29 ac yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
3 Medi 2021